Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
Live Fear Free Helpline
0808 80 10 800
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Mae bellach yn ANGHYFREITHLON cynnal, cynnig neu helpu mewn unrhyw ffordd gyda phrofion gwyryfdod a hymenoplasti mewn unrhyw ran o'r DU, fel rhan o Ddeddf Iechyd a Gofal 2022.

Mae dogfen ganllawiau lawn, a ddarperir gan Lywodraeth y DU, ar gael **Canllawiau amlasiantaeth ar brofion gwyryfdod a hymenoplasti – GOV.UK (www.gov.uk)**

## Beth yw profion gwyryfdod a hymenoplasti?

Archwiliad o organau cenhedlu benywaidd yw **prawf gwyryfdod**, a elwir hefyd yn archwiliad hymen, archwiliad '2 fys' neu archwiliad o'r wain. Bwriad yr archwiliad yw penderfynu a yw menywod neu ferched wedi cael rhyw drwy'r wain.

At ddibenion Deddf Iechyd a Gofal 2022, mae profion gwyryfdod yn golygu unrhyw archwiliad (gyda chyswllt neu heb gyswllt) o organau cenhedlu benywaidd gyda'r bwriad o sefydlu a yw cyfathrach drwy'r wain wedi digwydd.

Safbwynt Sefydliad Iechyd y Byd a Choleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr (RCOG) yw nad oes gwerth gwyddonol na mesurau clinigol i brofion gwyryfdod gan nad oes unrhyw archwiliad hysbys sy'n gallu profi a yw menyw wedi cael cyfathrach drwy'r wain.

Mae **hymenoplasti** yn ddull a ddefnyddir i ail-greu hymen. Mae nifer o dechnegau gwahanol i gyflawni hyn, ond yn gyffredinol mae'n golygu pwytho gweddillion hymenol gyda'i gilydd yn agoriad y wain, neu ail-greu hymen drwy lawdriniaeth gan ddefnyddio meinwe'r wain. Y nod yw sicrhau bod menyw yn gwaedu y tro nesaf y mae'n cael cyfathrach er mwyn rhoi'r argraff nad oes ganddi hanes o gyfathrach drwy'r wain.

Nid yw hymenoplasti yr un fath â dulliau eraill y gellid eu defnyddio ar yr hymen am resymau clinigol (er enghraifft, llawdriniaeth i gael gwared ar weddillion yr hymen sy'n achosi anesmwythyd, neu drin hymen di-dwll i alluogi gwaed mislif i ddianc).

## Pwy sy’n cael ei effeithio gan brofion gwyryfdod a hymenoplasti?

Mae tystiolaeth mai menywod a merched rhwng 13 oed a 30 oed sydd yn y perygl mwyaf o gael prawf gwyryfdod a/neu hymenoplasti, ond gall merched mor ifanc ag 8 oed gael eu heffeithio. Gallai unrhyw fenyw neu ferch, o unrhyw oed, ethnigrwydd, hil, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, amhariad neu statws economaidd-gymdeithasol orfod cael prawf gwyryfdod neu hymenoplasti. Gall gymryd blynyddoedd i fenywod a merched drafod eu profiadau oherwydd y cywilydd sy’n gysylltiedig â’r arferion hyn, lefel y trawma y gellid ei brofi ac ofn cam-drin pellach ar sail ‘anrhydedd’.

Fel gyda mathau eraill o’r hyn a elwir yn gam-drin ar sail ‘anrhydedd’, mae’r arferion hyn yn aml yn digwydd y tu ôl i ddrysau caeëdig, mewn cymunedau a diwylliannau hynod geidwadol. Oherwydd hyn, nid ydym yn gwybod faint o fenywod a merched sy’n dioddef. Er nad yw nifer yr achosion yn glir, mae tystiolaeth bod menywod a merched o dan bwysau dwys i gael profion gwyryfdod a hymenoplasti.

## Pa effaith allai hyn ei chael ar y dioddefwyr?

Mae menywod a merched yn cael eu cymell, eu gorfodi a’u cywilyddio i fynd drwy’r triniaethau hyn er mwyn cyflawni’r gofyniad bod menyw yn parhau i fod yn ‘bur’ cyn priodi.

Caiff profion gwyryfdod a hymenoplasti eu hystyried â’r un difrifoldeb ag ymosodiadau sy’n achosi niwed corfforol gwirioneddol, a hynny er mwyn cydnabod y niwed corfforol a seicolegol y gallant ei achosi i’r unigolyn sy’n eu dioddef. Mae’r lefel hon o ddifrifoldeb hefyd yn adlewyrchu’r agweddau rheolaethol sy’n sail i’r arferion.

Gall profion gwyryfdod a hymenoplasti ddigwydd cyn priodas dan orfod neu cyn gorfodi plentyn i briodi, a gallant fod yn gam cyntaf mewn mathau eraill o batrymau ymddygiad teuluol a/neu gymunedol, gan gynnwys rheolaeth gorfforol ac emosiynol. Gwelir bod menywod sy’n ‘methu’ prawf gwyryfdod, neu y canfyddir eu bod wedi ail-greu hymen, neu nad ydynt yn gwaedu ar noson eu priodas yn debygol o brofi mwy o gam-drin ar sail ‘anrhydedd’ gan gynnwys cam-drin emosiynol a chorfforol, cael eu gwrthod gan eu teulu neu eu cymuned, neu hyd yn oed gael eu lladd ar sail anrhydedd.

Mae’r arferion yn ddiraddiol ac yn ac yn mynd yn groes i ddymuniad yr unigolyn. Gallant arwain at drawma seicolegol eithafol yn y dioddefwr, a gallant ysgogi cyflyrau gan gynnwys gorbryder, iselder ac anhwylder straen ar ôl trawma. Mae’r arferion wedi cael eu cysylltu â hunanladdiad. Gallant fod yn gorfforol niweidiol. Er enghraifft, gall profion gwyryfdod achosi difrod i’r hymen, rhwygiadau a difrod i wal y wain, gwaedu, a haint. Mae’r risg o haint hefyd yn uchel mewn hymenoplasti, sydd â’r risgiau ychwanegol o waedu acíwt yn ystod y driniaeth, creithio a chulhau agoriad y wain ac anawsterau rhywiol.

## Beth i’w wneud os ydych yn poeni bod rhywun rydych chi’n ei adnabod mewn perygl o orfod cael prawf gwyryfdod a hymenoplasti?

Mae dogfen ganllawiau lawn, a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU pan ddaeth y ddeddfwriaeth i rym ar gael yma **canllawiau amlasiantaeth ar brofion gwyryfdod a hymenoplasti - GOV.UK (www.gov.uk)**



## Cymorth penodol i Gymru:

Os oes rhywun mewn perygl uniongyrchol, cysylltwch â'r heddlu drwy ffonio 999 a gofyn am yr heddlu.

Dilynwch eich gweithdrefnau diogelu a amlinellir gan eich cyflogwr/darparwr.

## Mae'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr yng Nghymru yn cynnwys y canlynol:

**Mae Llinell Gymorth Byw Heb Ofn** iyn wasanaeth 24/7 am ddim i bawb sy'n dioddef ac yn goroesi cam-drin domestig a thrais rhywiol a'r bobl sy'n agos atynt, gan gynnwys teulu, ffrindiau a chydweithwyr.

**Ffôn:** 0808 80 10 800

**Testun:** 0786 007 7333

**E-bost:** gwybodaeth@ llinellgymorthbywhebofn.cymru

**Sgwrsio byw: llyw.cymru/byw-heb-ofn**

**Bawso** yw'r prif sefydliad yng Nghymru sy'n darparu cymorth ymarferol ac emosiynol i bobl dduon, pobl ethnig leiafrifol a mewnfudwyr sy'n dioddef yn sgil cam-drin domestig, trais rhywiol, masnach pobl, anffurfio organau cenhedlu menywod a phriodasau dan orfod.

**Ffoniwch y llinell gymorth:** 0800 731817

**E-bost:** helpline@bawso.org.uk

Gwasanaeth llinell gymorth ddwyieithog yw **MEIC** sy'n ddienw a chyfrinachol, sydd ar gael am ddim i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed yng Nghymru ac sy'n darparu gwybodaeth, cyngor defnyddiol a chymorth.

Mae Meic ar agor rhwng 8am a hanner nos, 7 diwrnod yr wythnos, dros y ffôn, ar neges destun a thrwy wasanaeth sgwrsio byw.

**Rhadffôn:** 0808 80 23456

**Testun:** 84001

**Sgwrsio byw: www.meiccymru.org/cym/**

## Gwasanaethau cymorth trais rhywiol

Yng Ngogledd Cymru (Ynys Môn, Conwy, Gwynedd, Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Wrecsam), mae dau brif wasanaeth cymorth trais rhywiol:

- Mae'r Ganolfan Gymorth Trais a Cham-drin Rhywiol (RASASC) yn darparu gwybodaeth, cymorth arbenigol a therapi i unrhyw un sydd wedi profi unrhyw fath o gam-drin rhywiol a thrais. Gallwch gysylltu â nhw ar 01248 670 628 neu **info@rasacymru.org.uk**
- Mae Stepping Stones yn darparu gwasanaethau therapiwtig i oedolion sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol pan yn blant. Gallwch gysylltu â nhw ar 01978 352 717 neu **info@steppingstonesnorthwales.co.uk**

Yn nghanolbarth, gorllewin, dwyrain a de Cymru, y prif ddarparwr gwasanaethau cymorth trais rhywiol yw Llwybrau Newydd. Gallwch gysylltu â nhw ar 01685 379 310 neu **enquiries@newpathways.org.uk**

Mae **Karma Nirvana** yn Llinell Gymorth Cam-drin ar sail Anrhydedd genedlaethol, ac mae'n hyfforddi gweithwyr proffesiynol, yn casglu data er mwyn cyfrannu at bolisïau a gwasanaethau, ac yn ymgyrchu dros newid.

**Llinell Gymorth:** 0800 599 9247

## Yr Uned Priodasau dan Orfod

Mae'r **Uned Priodasau dan Orfod** (FMU) yn uned ar y cyd rhwng y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO) a'r Swyddfa Gartref, sy'n arwain ar bolisïau priodas dan orfod, allgymorth a gwaith achos y llywodraeth. Mae'n gweithredu o fewn y DU (lle darperir cymorth i unrhyw unigolyn) a thramor (lle darperir cymorth consylaidd i ddinasyddion Prydeinig, gan gynnwys gwladolion deuol).

**Ffôn:** 020 7008 0151

**E-bost: fmu@fcdo.gov.uk**



OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru, WG45900
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg